

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020

Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2016 Crynodeb Dinesydd

Trosolwg

Mae Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cynrychioli buddsoddiad o saith mlynedd yng Nghymru wledig gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd (UE) drwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD). Mae'r Rhaglen yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau a gynlluniwyd i gynyddu cynaliadwyedd a chadernid amgylchedd naturiol Cymru, sector diwydiannau'r tir, busnesau bwyd a chymunedau gwledig.

Darperir y mathau o weithgarwch a gefnogir gan y Rhaglen yn bennaf drwy 'Gynlluniau' y gellir eu grwpio yn ôl:


- *Cynlluniau Cyfalaf Dynol a Chymdeithasol* (gan gynnwys Cyswllt Ffermio)
- *Cynlluniau Buddsoddi* (megis y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy)
- *Cynlluniau Hinsawdd Amaeth-amgylcheddol* (cynlluniau Glastir a Choedwigaeth)
- *Cynlluniau Datblygu Lleol* (gan gynnwys LEADER)
- *Gweithgareddau eraill* (Cymorth Technegol)

Cytunwyd ar gyllideb o hyd at £957 miliwn ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae hyn yn cynnwys tua £557 miliwn o arian yr UE a £400 miliwn o arian Llywodraeth Cymru ei hun.

Mae rhan fwyaf o'r cynlluniau yn cael eu cyflenwi drwy grantiau/cytundebau a reolir drwy broses gystadleuol Datganiadau o Ddiddordeb. Mae'r ffenestri ariannu hyn yn cael eu hagor ar amser a hysbysebiri ymlaen llaw. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond y prosiectau mwyaf priodol a buddiol sy'n mynd ymlaen i'r cam ymgeisio a chymeradwyo. Ceir rhai eithriadau i'r broses hon fel Cyswllt Ffermio a LEADER. Mae gwybodaeth am y ffenestri ariannu sydd ar agor ac sydd ar ddod ar gael yn:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountry/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?skip=1&lang=cy>

trwythur Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020



Cyfalaf Dynol a Chymdeithasol - £135m
Cynllun Cydweithredu a Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) Cymru Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi Cynllun Cynghori Busnes Gwledig

Hinsawdd Amaeth-amgylcheddol - £530m
Glastir Uwch Glastir – Tir Comin Glastir Sylfaenol Glastir Organig Grantiau Bach Glastir Coetiroedd Glastir

Buddsoddiad - £147m
Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd Cynllun Monitro Coedwigoedd a Rheoli Risg Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig Cynllun Dechrau Busnesau Gwledig Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth

Datblygu Lleol - £107m
Cronfa Datblygu Leol LEADER Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig

Gweithgareddau eraill - £38m
Cymorth Technegol

Cynnydd hyd yn hyn:

Erbyn diwedd 2016 roedd £45.24 miliwn o daliadau wedi cael eu gwneud o dan y Rhaglen ac roedd y rhan fwyaf o'r taliadau hynny yn gysylltiedig â chynlluniau amaeth-amgylcheddol. O'r taliadau a wnaed daeth £25.41 miliwn o trosglwyddo arian Colofn 1. Mae £25.25 miliwn o cyllid y Colofn 1 hwn wedi ei dalu o dan gynlluniau amaeth-amgylchedd a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Mae gan ffermwyr a pherchnogion tir hefyd y cyfle i wneud cais am gyllid o dan feysydd eraill y rhaglen ochr yn ochr â chynlluniau amaeth-amgylchedd-hinsawdd traddodiadol. Gellir gweld crynodeb o weithgareddau'r Cynlluniau a gefnogir gan y Rhaglen isod:

CYNLLUNIAU CYFALAF DYNOL A CHYMDEITHASOL

Bydd contractau cyflenwi hyfforddiant a chynghori (Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth a Chynghori Busnesau Gwledig) drwy **Gyswllt Ffermio** yn ganolog i ddarparu cefnogaeth i feysydd eraill y rhaglen ac yn ffurfio'r prif fecanwaith ar gyfer cyflwyno pecyn integredig o gymorth ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth, cynghori ac arloesi gan dargedu cymunedau gwledig yng Nghymru. Cefnogir hefyd **wasanaethau cynghori** sy'n helpu i gyflwyno **Glastir**, ynghyd â gweithgareddau **Trosglwyddo Gwybodaeth**, sy'n cynnwys prosiectau cymorth grant ar gyfer mentrau o'r gwaelod i fyny sy'n cael eu harwain gan y sector a diwydiant ac sy'n targedu amaethyddiaeth, coedwigaeth, bwyd, busnesau bach a chanolig gwledig eraill a rheolwyr tir megis **Prosiect HELIX**.

Partneriaeth Arloesi Ewrop ar gyfer Cynhyrchiant a Chynaliadwyedd Amaethyddol yw **EIP Cymru**, a'i nod yw dod ag amryw o bobl a sefydliadau at ei gilydd i ddatblygu atebion arloesol, gan roi budd i ddiwydiant ehangach yng Nghymru ac yn yr UE. Mae EIP yn ddull newydd ar gyfer helpu i ddatblygu ymchwil ac arloesi mewn amaethyddiaeth a choetiroedd yng Nghymru.

Mae'r **Cynllun Cydweithredu a Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi** yn cefnogi cydweithio a'r nod yw gwneud i bethau newydd ddigwydd, a thrawsnewid drwy roi cefnogaeth i ddatblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a bwyd. Agorodd dwy ffenestr ariannu ar gyfer y Cynllun yn ystod 2016. Yn ogystal â hynny, mae'r **Cynllun Rheoli Cynaliadwy** yn darparu cymorth ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau i wella'r broses o reoli adnoddau naturiol Cymru a fydd yn cyfrannu at les cymunedau gwledig. Agorodd ffenestr ariannu gyntaf y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn ystod 2016 a derbyniwyd 63 o geisiadau cam cyntaf gydag 11 ohonynt yn cael gwahoddiad i gyflwyno ceisiadau llawn. Bydd y **Cynllun Rhwydwaith Rhanbarthol Twristiaeth a Chymorth Marchnata** sy'n lansio yn ystod 2017 yn annog datblygiad arferion a phrosesau newydd mewn busnesau bach er mwyn datblygu cyfleoedd twristiaeth yn lleol.

CYNLLUNIAU BUDDSODDI

Mae'r **Grant Cynhyrchu Cynaliadwy** yn gronfa fuddsoddi i helpu i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol ffermydd. Mae'n cwmpasu buddsoddiadau cyfalaf mewn offer a pheiriannau, ynghyd â rhai costau cysylltiedig, ac mae'n cefnogi prosiectau sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i wella perfformiad cyffredinol a chynaliadwyedd ar y fferm. Mae tair ffenestr ariannu wedi agor hyd yma ar gyfer y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, gydag 81 o ymgeiswyr llwyddiannus.

Mae'r **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren** yn darparu arian ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf sy'n ychwanegu gwerth at goedwigoedd drwy alluogi gweithgareddau rheoli coetiroedd, cynaeafu pren a/neu brosesu coed. Cafodd y cyfnod ariannu cyntaf 50 o geisiadau cam cyntaf, ac roedd 21 ohonynt yn llwyddiannus. Bwriad y **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd** yw helpu cynhyrchwyr cynradd amaethyddol yng Nghymru i ychwanegu gwerth at eu cynnyrch trwy ddarparu cymorth i'r busnesau hynny sy'n gwneud y cam cyntaf a/neu ail gam o weithgareddau prosesu. O'r ddwy ffenestr EOI a gaeodd yn ystod 2016 gwahoddwyd cyfanswm o 45 o ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau llawn. Bydd y **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig** ar agor yn ystod 2017, i ategu'r ymyriadau eraill sy'n gysylltiedig â bwyd a diod sy'n rhan o'r Rhaglen.

Bydd **Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth – Gwledig** sydd i agor yn 2017 yn targedu'r prosiectau cyfalaf hyfyw a chynaliadwy yn y sector twristiaeth preifat a fydd yn cefnogi datblygu cynnyrch twristiaeth â blaenoriaeth, gan greu a diogelu swyddi mewn ardaloedd gwledig. Mae'r **Cynllun Monitro Coedwig a Rheoli Risg** yn cefnogi gweithgarwch a gynhaliwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i fonitro achosion o glefydau coed a bygythiadau posibl i alluogi camau i gael eu cymryd i atal effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.

CYNLLUNIAU AMAETH-AMGYLCHEDDOL

Teulu o Gynlluniau cysylltiedig yng Nghymru i gefnogi rheoli tir yn gynaliadwy yw **Glastir**. Cynigir cymorth ariannol i ffermwyr a rheolwyr tir i ddarparu nwyddau amgylcheddol penodol a gwasanaethau wedi'u hanelu at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, rheoli dŵr yn well, cynnal a gwella bioamrywiaeth a chreu cyfleoedd newydd i wella mynediad a dealltwriaeth o gefn gwlad.

Mae **Glastir** wedi'i gynllunio i ddarparu canlyniadau ar lefel y fferm, y goedwig a'r dirwedd mewn ffordd gosteffeithiol. Mae **Glastir Uwch** yn darparu cymorth ariannol wedi'i dargedu i ffermwyr a rheolwyr tir i gyflawni'r amcanion hyn, cyflawni gwelliannau amgylcheddol i amrywiaeth o amcanion gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau, pridd a dŵr. Mae cynllun **Rheoli Coetiroedd Glastir** yn cefnogi rheolwyr tir sydd am greu coetir newydd a/neu reoli coetir sy'n bod eisoes. Mae **Cynllun Glastir Organig** yn rhoi cymorth i ffermwyr a chynhyrchwyr organig. Mae'n helpu ffermwyr a chynhyrchwyr i newid i gynhyrchu'n organig yn ogystal â chefnogi cynhyrchwyr organig presennol. O dan y **Cynllun Grantiau Bach Glastir** gall rheolwyr tir a busnesau ffermio elwa ar uchafswm cyllid o hyd at £7,500 ar gyfer gwaith cyfalaf o dan dair thema; Carbon, Dŵr a Thirwedd a Phryfed Peillio. Yn ogystal â Glastir, mae contractau etifeddiaeth amaeth-amgylcheddol a choedwigaeth yr ymrwymwyd iddynt o dan raglenni gwledig blaenorol hefyd yn cael cymorth ynghyd â chynlluniau amaeth-amgylcheddol sydd wedi cau fel **Sylfaenol a Thir Comin**.

CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL

Mae **LEADER** yn ffurf ar Ddatblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned. Drwy broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid, meithrin gallu grwpiau targed a chydweithredu, cydnabyddir y problemau a wynebir a'r cyfleoedd sydd ar gael i ardal ac yna caiff atebion posibl eu treialu. Mae 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol wedi'u cymeradwyo yng Nghymru sy'n cwmpasu 21 o'r 22 o ardaloedd Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae cronfa ddata prosiectau Grwpiau Gweithredu Lleol wedi'u sefydlu;

<http://llyw.cymru/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/wales-rural-network/local-action-groups/local-action-group-projects-directory/?skip=1&lang=cy>

Mae'r grantiau a gynigir drwy'r **Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig** yn darparu cyllid buddsoddi ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau i helpu i ddiwallu anghenion lleol a chryfhau cymunedau fel y gallant dyfu a ffynnu. Roedd tair ffenestr ariannu yn ystod 2016 a derbyniwyd 317 o geisiadau cam cyntaf, gyda 163 ohonynt yn symud ymlaen i'r cam cais llawn. Darperir cymorth ar gyfer buddsoddi ar raddfa fach i wella arwyddion i safleoedd twristiaeth, adeiladu a moderneiddio canolfannau gwybodaeth i dwristiaid a darparu

gwybodaeth i ymwelwyr ac arweiniad drwy gyfrwng y **Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth – Gwledig Rhanbarthol**, sydd i agor yn 2017.

GWEITHGAREDDAU ERAILL

Mae **Rhwydwaith Cymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru** yn rhan hanfodol o'r rhaglen, ac mae'n cael ei ariannu drwy Gymorth Technegol. Sefydlwyd yr Uned er mwyn gallu rhwydweithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, drwy rannu gwybodaeth, arferion gorau a phrofiad ar draws Cymru, y DU ac Ewrop. Mae'r Rhwydwaith yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r Cynllun Datblygu Gwledig trwy helpu i ychwanegu gwerth at y cyllid sydd ar gael. Yn ystod 2016 sefydlwyd grŵp llywio i gynghori, monitro a hyrwyddo gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru. Am ragor o wybodaeth ac i gael gwybod mwy am y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Rhwydwaith, ewch i:

<http://llyw.cymru/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/wales-rural-network/?skip=1&lang=cy>

Ceir rhagor o wybodaeth am y Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 a rhestr o brosiectau sydd wedi eu cymeradwyo yn:

<http://llyw.cymru/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?skip=1&lang=cy>